

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 6 o FEDI 2021 YN NEUADD YR EGLWYS,LLANGYNDEYRN AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Linda Williams (yn y gadair),Alan Lewis,Heddwyn Jones,Tyssul Evans,Ian Evans,Caroline Williams,Geraint Rosser,Meic Bowen a'r Clerc,Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Aled Williams,Tracey James,Margaret Rees a Geoff Hewitt.

2646 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Llongyfarchwyd Richard Lewis mab Alan Lewis ar eu dyrchafiad fel Brif-Gwnstabl Heddlu Dyfed-powys.

2647 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 05/07/2021 fel rhai cywir.

2648 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2631 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Arhoswn am ymateb oddiwrt h y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2631- Swyddfa Bost Carwe - Cysylltwn eto gyda'r Swyddfa Bost er mwyn trefnu Cyfarfod Safle pan bod y sefyllfa COVID-19 yn caniatáu.

Tud 1. Cofnod Rhif 2631 - Cofeb Rhyfel Pontiets – Arhoswn am ymateb gan y 'War memorial Trust'.

Tud 1. Cofnod Rhif 2631 - Parc Pontiets – Mae'r gwaith wedi ei gorffen.

Tud 1. Cofnod Rhif 2631 - Llwybr Treftadaeth - Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc ac ar ymatebion Cyngorau Gwledig Llanelli a Thrimaran.

Tud 2. Cofnod Rhif 2643 – Sedd yng Ngharwe – Wedi trafodaeth penderfynnwyd cyflwyno i'r Cyngor Sir ein dymuniad i osod yn sedd yn ol yn y man gwreiddiol.

Tud 2. Cofnod Rhif 2645 - Meddygfa'r Sarn,Pontiets - Darllenwyd ymateb y Feddygfa i'r llythyr oddiwrt h y Cyngor. Penderfynnwyd danfon y llythyr gwreiddiol a'r ymateb ymlaen at y Cyngor Cymuned lechyd. Hefyd estynnir gwahoddiad i Reolwr y Feddygfa i gwrdd gyda'r Cadeirydd,Is-gadeirydd a'r Clerc i drafod ymhellach.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cyngorwyr Heddwyn Jones a Meic Bowen yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2649 Nasareth Pontiets – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Heddwyn a Meic yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2650 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Parc Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £700.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2651 Cyngor Sir Gar – Enwebu Cynrychiolydd ar ran Awdurdod Llai – Ysgol y Fro–Enwebwyd y Cyngorydd Caroline Williams.

Ceisiadau Cynllunio

2652

Cyngorwr Tyssul Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

a) Rhif y Cais - PL/02218 – Felin y Glyn,Pontiets - Estyniad - Dim Gwrthwynebiad.

Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.

- b) Rhif y Cais – PL/02220 – 27, Tir Dafydd, Pontiets – ‘Raised Decking’ – Dim Gwrthwynebiad.
- c) Rhif y Cais – PL/02302 – Oakland, Pedair, Heol – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad.
- ch) Rhif y Cais - PL/02496 - 16, Ger Tŷ Mawr, Carwe - Estyniad - Dim Gwrthwynebiad.
- d) Rhif y Cais – PL/02498 – Tir ar Heol Mansant, Pontiets – Estyniad i Sied – Dim Gwrthwynebiad a chefnogi'r cais.
- dd) Rhif y cais - PL/02535 - Tir rhwng Cregina a Grren Villa, Meinciau - Tŷ Anedd a Garej - Dim Gwrthwynebiad.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2653 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2654 Derbyniwyd adroddiadau ariannol Mis Gorffennaf a Mis Awst 2021. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2655 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

- a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Gorffennaf)
- b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Gorffennaf)
- c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £110.00 (Mis Gorffennaf)
- ch) HMRC (Treth)- £89.20 (Mis Gorffennaf)
- d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Gorffennaf)
- dd) BT – Ffon y Swyddfa - £52.92 (Mis Gorffennaf)
- e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Gorffennaf)- £182.00
- f) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau (Mis Gorffennaf) - £14.75
- ff) Linda Williams – Lwfans y Cadeirydd -£300.00
- g) Marcus Dininno– Torri Gwair, Carwe - £50.00
- ng) Inc i'r Llungopiwr - £88.45
- h) Virus Protection - £59.80
- i) Stampiau - £.28.32
- l) Justin Gravell – Gwaith yn y Plwyf - £2205.00
- m) Marcus Dininno – Torri Gwair, Carwe - £50.00
- n) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Awst)
- o) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Awst)
- p) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £110.00 (Mis Awst)
- ph) HMRC (Treth)- £89.40 (Mis Awst)
- r) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Awst)
- rh) BT – Ffon y Swyddfa - £52.92 (Mis Awst)
- s) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Awst) £182.00
- t) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau (Mis Awst) - £14.90
- th) Dwr Cymru – Toiledau'r Meinciau - £195.49
- u) Marcus Dininno – Torri Gwair – Carwe - £50.00
- w) Marcus Dininno – Gwaith yn y Plwyf - £80.00

2656 Parc Gwynfryn

Cafwyd adroddiad gan y Clerc o'r gwaith a gwblhawyd gan Wicksteed yn y Parc.

2657 Defibrillators

Penderfynwyd edrych i mewn i osod Defibrillators yn :-

- a) Pedair Heol,
- b) Crwbin
- c) Pontnewydd

2658 Ciosg Ffon

Awdurdodwyd y Clerc i gysylltu gyda Chwmni Yswiriant Zurich ynglŷn â sefyllfa yswiriant yr hen Giosg Ffon yng Nghrwbini, Pedair Heol, Llangyndeyrn a Phontantwn.

2659 Croesffordd wrth y Neuadd ym Mhontiets

Codwyd consyrn ynglŷn â chyflymder traffig wrth y groesffordd a bod fideo wedi dangos bod damwain bron a digwydd yn ddiweddar. Mae'r mater wedi cael ei throsglwyddo i'r Heddlu a gofynnir i'r Cyngor Sir am eu hymateb.

Cyfarfod nesaf:- 4ydd o Hydref 2021 yn Nasareth, Pontiets

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....